Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

# Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Cyllidebau'r Gymraeg

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am ddyraniadau'r gyllideb sy'n berthnasol i'r Gymraeg mewn cynigion a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft fanwl ar gyfer 2026-27 (cam 2), a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

# Cynnwys

1. **Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs)** ..... 3

BEL y Gymraeg ..... 4

BEL Comisiynydd y Gymraeg ..... 5

Y BEL Cymraeg mewn Addysg ..... 5

BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol) ..... 5

2. **Gwybodaeth Arall** ..... 7

3. **Meysydd Penodol** ..... 13

4. **Comisiynydd y Gymraeg** ..... 17

5. **Gwariant Cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg** ..... 18

6. **Crynodeb** ..... 19

7. **Atodiad** ..... 20

Atodiad A – Cyllidebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ôl Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2024-25 (alldro), 2025-26 (rhagolwg alldro) a 2026-27 ..... 20

## 1. Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs)

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2026-27 sy'n berthnasol i bolisïau'n ymwneud â'r Gymraeg.

*Tabl 1 Dyraniadau Cymraeg 2050 yng nghyllideb 2026-27*

| | 2026-27 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg – Crynodeb | Cyllideb Derfynol 2025-26 (Chwefror 2025) | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Dyraniadau Ychwanegol | Newidiadau Eraill | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | £000oedd | | | | | |
| Prif Grŵp Gwariant (MEG) Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | |
| Adnoddau cyllidol (refeniw) | 41,806 | 78 | 41,884 | 845 | 80 | 42,809 |
| Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) | 138 | 0 | 138 | 0 | 0 | 138 |
| Cyfanswm Adnoddau – MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 41,944 | 78 | 42,022 | 845 | 80 | 42,947 |
| MEG Addysg | | | | | | |
| Adnoddau cyllidol (refeniw) | 15,190 | 0 | 15,190 | 700 | -2,426[1] | 13,464 |
| Cyfanswm Adnoddau – MEG Addysg | 15,190 | 0 | 15,190 | 700 | -2,426 | 13,464 |
| Cyfanswm Adnoddau – Cymraeg 2050 | 57,134 | 78 | 57,212 | 1,545 | -2,346 | 56,411 |
| Prif Grŵp Gwariant (MEG) Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | |
| Cyfalaf | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfanswm Cyfalaf – MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfanswm – Cymraeg 2050 | 57,184 | 78 | 57,262 | 1,545 | -2,346 | 56,461 |

Mae'r wybodaeth hon yn gyson â'r cyllidebau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor y llynedd, gyda'r llinellau yn y gyllideb wedi'u rhannu ar draws dau Brif Grŵp Gwariant: y MEG Addysg (llinellau gwariant Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol)) a'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (llinellau gwariant y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg). Er eu bod wedi'u hepgor o'r cyllidebau *Cymraeg 2050* a gyflwynir uchod, cydnabyddir bod llinellau gwariant eraill yn y MEG Addysg (gan gynnwys BEL Seilwaith Addysg, BEL Datblygu a Chymorth Athrawon a BEL Cwricwlwm ac Asesu) a llinellau gwariant ar draws portffolios Gweinidogion eraill hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu polisïau'n ymwneud â'r Gymraeg (gweler yr adran 'Gwybodaeth Arall').

[1] Nid gostyngiad mewn cyllid yw hwn ond trosglwyddiad gweinyddol cyllideb Adnodd o'r BEL Cymraeg mewn Addysg i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu o fewn y MEG Addysg, yn dilyn trosglwyddo rôl rheoli nawdd Adnodd o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Cyfanswm y gyllideb ddangosol ar gyfer *Cymraeg 2050* fel y nodir uchod yw £56.461m ar gyfer 2026-27, sy'n cynnwys adnoddau cyllidol (refeniw) o £56.273m, adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) o £0.138m a chyfalaf o £0.05m. Ar draws y naill MEG a'r llall, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o £0.8m mewn adnoddau (-1.4%), fodd bynnag bydd y gostyngiad hwn yn cael ei effeithio gan y trosglwyddiad gweinyddol o £2.4m i Adnodd o fewn y MEG Addysg. Mae'r cyllid wedi'i drosglwyddo o'r BEL Cymraeg mewn Addysg i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu i adlewyrchu'r ffaith bod yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu wedi ymgymryd â rôl rheoli partneriaeth Adnodd o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Ac eithrio'r trosglwyddiad hwn, bu cynnydd o £1.6m i gyllidebau *Cymraeg 2050*, sef cynnydd o 2.8% o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. Mae hyn yn cynnwys cynnydd chwyddiannol o £0.845m (2%) mewn refeniw i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, a chynnydd o £0.7m (4.6%) i'r MEG Addysg (BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol)) yn benodol mewn perthynas â chyllid cylchol ar gyfer y ddarpariaeth drochi yn y Gymraeg.

Yn unol â chais y Pwyllgor, mae dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2026-27, ynghyd ag alldro terfynol 2024-24 a rhagolygon alldro 2025-26 (fel yr oeddent yng Nghyfnod 5) fesul MEG, Cam Gweithredu a BEL wedi'i atodi yn Atodiad A.

Mae'r llinell sylfaen ddiwygiedig a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn defnyddio Cyllideb Derfynol 2025-26 fel man cychwyn, gan addasu ar gyfer cyllid cylchol a ddarparwyd i gefnogi cynnydd i gyflogau'r sector cyhoeddus yn 2025-26 a chynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ymlaen. Mae hyn wedi arwain at newidiadau gwerth cyfanswm o £0.078m i'r llinell sylfaen ar draws llinellau gwariant y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg.

### BEL y Gymraeg

Diben BEL y Gymraeg (o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yw cefnogi cyflawni *Cymraeg 2050* mewn perthynas â Themâu 2 a 3 *Cymraeg 2050* – sef cynyddu'r defnydd o'r iaith a sicrhau'r amodau a'r seilwaith gorau i gyflawni'r strategaeth. Y gyllideb ddangosol ar gyfer BEL y Gymraeg yw £39.334m yn 2026-
27. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd mewn arian parod o £0.85m (2.21%) yn 2026- 27 o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

Yn ogystal â'r cynnydd chwyddiannol o £0.772m (2%) i'r BEL, mae £0.08m o'r cynnydd hwn yn ymwneud â throsglwyddiad cylchol o'r MEG Addysg i Brosiect y Gymraeg ym Mhatagonia o 2026-27 ymlaen. Mae'r prosiect yn lleoli athrawon ym Mhatagonia i addysgu Cymraeg mewn ysgolion lleol a'r gymuned leol, yn cefnogi rhwydwaith o diwtoriaid Cymraeg o Batagonia, yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith o fewn y gymuned ac yn datblygu cysylltiadau â Chymru.

Mae arnom angen cefnogaeth ein partneriaid i gyflawni amcanion *Cymraeg 2050*. Mae'r cynnydd chwyddiannol hwn yn adeiladu ar y cynnydd o £4.6m (13.4%) i'r llinell wariant hon yn 2025-26, a ddarparodd gymorth i'r sector Cymraeg.

Mae’r cyllid yn y llinell wariant hon yn cefnogi gweithgareddau i gyflawni *Cymraeg 2050*, gan gynnwys cyllid ar gyfer rhanddeiliaid allweddol i wneud y canlynol:

- darparu hyfforddiant yn y Gymraeg drwy’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- creu cyfleoedd i hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg yn y sector trydyddol drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- cynyddu'r defnydd o'r iaith drwy Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, drwy grantiau i bartneriaid allweddol, gan gynnwys: y rhwydwaith o Fentrau Iaith a Phapurau Bro; Merched y Wawr; Cymdeithas Eisteddfodau Cymru; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru;
- cyflwyno Cymraeg i Blant drwy’r Mudiad Meithrin i gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o’r teulu i ddefnyddio’r Gymraeg gartref, trosglwyddo Cymraeg i’w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol;
- cyflawni ein blaenoriaethau o ran technoleg Cymraeg;
- cynnal gweithgareddau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith sy'n cefnogi ac yn hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg plant oedran ysgol;
- cefnogi'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*;* a
- chynnal gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn cysylltiad â’r strategaeth.

## BEL Comisiynydd y Gymraeg

Mae’r gyllideb hon (o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg, a darperir rhagor o fanylion yn yr adran ‘Comisiynydd y Gymraeg’.

## Y BEL Cymraeg mewn Addysg

Mae’r BEL Cymraeg mewn Addysg (o fewn y MEG Addysg) yn cefnogi’r gwaith o gyflawni Thema 1 sy’n ymwneud ag addysg Gymraeg o fewn *Cymraeg 2050*. Y gyllideb ddangosol ar gyfer 2026-27 yw **£3.991m**, sy'n ostyngiad o £2.426m o'r llinell sylfaen ddiwygiedig. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â throsglwyddiad gweinyddol o fewn y MEG Addysg i Adnodd (fel y nodwyd uchod).

Mae'r cyllid sy'n weddill yn y llinell wariant hon yn cefnogi:

- cyllid ar gyfer y Mudiad Meithrin i gynyddu’r ddarpariaeth gofal plant Gymraeg fel llwybr i addysg Gymraeg;
- parhad yr arian ar gyfer y rhaglen e-sgol; a
- gweithredu’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros 10 mlynedd.

## BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol)

Sefydlwyd BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol) yn 2024-25 fel rhan o’n dull newydd o ymdrin â grantiau addysg ôl-16 drwy lunio’r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, gan gyflawni’r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i leihau’r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol. Mae’r elfen hon o’r grant yn cyfuno arian ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg, Dysgu Proffesiynol, y ddarpariaeth

trochi hwyr a’r Siarter Iaith, a bydd yn cefnogi’r gwaith o gyflawni Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Mae'r gyllideb yn cynyddu £0.7m i £9.473m yn 2026-27, o ganlyniad i ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer unedau trochi yn y Gymraeg i gefnogi cyflawni *Cymraeg 2050* a gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

## 2. Gwybodaeth Arall

**Dadansoddiad o effaith cyllideb "chwyddiant yn unig" ar gyflawni polisïau a mentrau sydd â'r nod o gyrraedd targedau Cymraeg 2050.**

Mae'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol a gyhoeddwyd ar 14 Hydref yn nodi ein dull o ymdrin â Chyllideb Ddrafft 2026-27, sy'n rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Senedd. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn ailddatgan y sylfeini cadarn a'r buddsoddiadau sylweddol a wnaed yng Nghyllideb 2025-26, a ddarparodd fuddsoddiad ychwanegol o £4.6m yn 2025-26 i gefnogi'r Gymraeg, gan gynyddu cyllidebau adrannol i adlewyrchu rhagolygon chwyddiant. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth barhaus i gyflawni ein targedau *Cymraeg 2050* a gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

**Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae gwariant a'r gwaith o gyflawni portffolio'r Gymraeg yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.**

Mae eglurder ynghylch sut y defnyddiwn ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* a'r Rhaglen Lywodraethu. Unwaith y bydd y gwariant wedi'i gynllunio yn unol â'm blaenoriaethau, mae gennyf brosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion y'u bwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethiant a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â phartneriaid cyflawni.

Mae'r cynnydd a wneir yn erbyn ***Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026*** yn cael ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi **Cynllun Gweithredu** blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna ceir **Adroddiad Blynyddol** ar ddiwedd y flwyddyn i adrodd ar y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau i sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu i gyflawni'r strategaeth.

Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl o ran cynghori ar y cynnydd a wneir tuag at dargedau 2050 ac effeithiolrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 o fewn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu risgiau a nodi'r camau i'w lliniaru ac mae'n prif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.

**Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliadau) yn eich portffolio, yn ogystal â dyraniadau ym mhortffolios gweinidogol eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni polisi iaith Gymraeg ac sy'n cefnogi targedau Cymraeg 2050 megis Cymraeg 2050. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu monitro effaith penderfyniadau gwariant ar draws meysydd polisi gweinidogol.**

Mae *Cymraeg 2050* yn ymdrech drawslywodraethol sy'n cael ei phrif ffrydio ym mhob maes portffolio Llywodraeth Cymru. Felly, mae gwariant ar weithredu'r

strategaeth yn rhan annatod o'r gwaith cyflawni o fewn sawl portffolio gweinidogol arall, gan gynnwys iechyd, tai a'r blynyddoedd cynnar. Fel y nodwyd yn ein hymateb i gais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth y llynedd, cydnabyddir nad yw'n bosibl nodi cyfanswm y gwariant ar y Gymraeg ar draws Llywodraeth Cymru o gofio natur gynhenid cyllido. Mae swyddogion Cymraeg 2050 yn cadw mewn cysylltiad agos â chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i fonitro effaith penderfyniadau gwariant ar *Cymraeg 2050.*

Mae adran 1 yn amlinellu rhagor o wybodaeth am ddyraniadau o fewn fy mhortffolio (y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yn ogystal â'r rhai o fewn portffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (y MEG Addysg) sy'n cynnwys BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol). Mae BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol) yn cynyddu £0.7m yn 2026-27 ar gyfer y ddarpariaeth drochi sy'n cefnogi'n uniongyrchol dargedau *Cymraeg 2050* a gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

*Sylwadau ar ymrwymiadau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg*

Ymdrinnir â rhai o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â'r Gymraeg, er enghraifft i greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, ar wahân yn y papur hwn. Ceir yr wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu isod.

- Symleiddio’r broses ar gyfer gweithredu Safonau’r Gymraeg
  Cynhaliwyd adolygiad yn dilyn argymhellion gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd yn 2020 i symleiddio'r broses ar gyfer cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Mae'r egwyddorion hyn bellach yn cael eu cymhwyso wrth inni baratoi safonau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dilyn ymgynghoriad ar Reoliadau drafft.

  Yn 2024-25, cafodd chwe chorff ychwanegol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig eu hymgorffori mewn rheoliadau safonau presennol, yn hytrach na chreu rheoliadau pwrpasol newydd. Mae'r dull symlach hwn o fudd i'r cyrff yn ogystal â Chomisiynydd y Gymraeg.

  Bydd costau gweithredu’r rheoliadau hyn gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cael eu talu o gyllideb adnoddau’r Comisiynydd. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn ategu’r Offeryn Statudol, yn amlinellu unrhyw oblygiadau ariannol a fydd gan y rheoliadau i’r cyrff sy’n ddarostyngedig iddynt.

- Mynd ati’n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg
  Ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yw un o'n prif flaenoriaethau.

Mae hon yn enghraifft gref o weithio trawslywodraethol rhwng Is-adran Cymraeg 2050 ac Is-adran y Blynyddoedd Cynnar.

Mae *Cymraeg 2050* yn gosod y targed o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf. Rydym yn ariannu'r Mudiad Meithrin (drwy'r BEL Cymraeg mewn Addysg) i arwain ar y broses ehangu hon drwy ei raglen *Sefydlu a Symud* (SaS). Bellach yn ei hwythfed flwyddyn, mae'r rhaglen SaS eisoes wedi agor neu ehangu 92 o grwpiau newydd, gyda 19 o brosiectau eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Disgwylir i'r rhaglen ragori ar y targed a osodwyd ar gyfer tymor y Senedd hon, sef helpu i gyrraedd 60 o grwpiau gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Mae twf darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar drwy'r rhaglen SaS wedi cefnogi ehangu Dechrau'n Deg, gyda 49 o'r darpariaethau a gefnogir yn cynnig Dechrau'n Deg.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi galluogi mwy o leoliadau cyfrwng Cymraeg i gynnig darpariaeth addysg gynnar yn y cyfnod sylfaen, yn ogystal â mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarparu gofal plant i blant dwyflwydd oed.

- **Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg**
  Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Gorffennaf, yn ganolog i'n huchelgeisiau yn *Cymraeg 2050*. Prif nod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yw sicrhau, erbyn 2050, bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol a hyderus, o leiaf. Mae'r gyllideb hon yn parhau'r cyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a chyfleoedd i bobl ddysgu'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r iaith, gan gynnwys drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf, a'r costau o sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fel corff newydd sy'n gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oedran) i ddysgu'r Gymraeg.

- **Ehangu'r Rhaglen Trochi Disgyblion**
  Ers 2021, mae'r buddsoddiad drwy'r grant trochi hwyr wedi galluogi pob awdurdod lleol i gynnig darpariaeth trochi hwyr yn ei ardal, gyda dros 9,000 o ddysgwyr yn elwa ar raglenni trochi hwyr. Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith i gefnogi addysg drochi, gan godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddarpariaethau, y datblygiadau a'r arferion gorau sydd ar waith ledled Cymru. Drwy'r gyllideb hon, rydym yn dyrannu cyllid ychwanegol o £0.7m i'r grant addysg awdurdodau lleol o 2026-27 ymlaen i gefnogi'r ddarpariaeth drochi yng Nghymru.

- **Ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chynyddu'r cyllid iddynt**

Ehangwyd rôl y Coleg i gwmpasu Addysg Bellach, a dysgu seiliedig ar waith, ac mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Coleg yn gynghorydd statudol i Medr mewn perthynas â'i ddyletswyddau o ran y Gymraeg ar draws y sector trydyddol cyfan. Ehangwyd rôl y Ganolfan Genedlaethol hefyd i gefnogi ysgolion, ac mae bellach yn darparu hyfforddiant Dysgu Cymraeg i'r gweithlu addysg. Bydd cyllid yn y gyllideb hon yn parhau'r gefnogaeth i'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2026-27 (BEL y Gymraeg).

- Cyflwyno prosiect peilot a fydd yn cymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu gydag addysgu Cymraeg mewn ysgolion Rydym yn ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hwyluso Cadw Cyswllt, sef cymuned o fyfyrwyr Cymraeg sy'n astudio y tu allan i Gymru, i'w hysbysu am amrywiaeth o gyfleoedd megis hyfforddiant, digwyddiadau, adnoddau, swyddi, profiad gwaith, a chyfleoedd ymchwil (gweler isod).

*Amlinelliad o ddyraniadau cyllid, ar draws portffolios, ar gyfer ymrwymiadau penodol sy'n gysylltiedig â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru), gan gynnwys:*

I. Cyllid er mwyn ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg;

O fewn portffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mae'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn darparu cyllid i weithredu cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg dros 10 mlynedd. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2026-27 yw oddeutu £8.7m.

Bydd tua £3.8m yn ariannu mentrau a chymhellion sydd wedi'u hanelu at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys:

- parhad y rhaglen bontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
- parhad y grantiau datblygu capasiti i alluogi ysgolion i ddatblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â'r prinder athrawon;
- cyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch mewn ysgolion a Cholegau Addysg Bellach;
- pedwaredd flwyddyn y bwrsari cadw athrawon; a
- chyllid ar gyfer CYDAG i gefnogi cydweithio a gweithio strategol ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae dysgu proffesiynol yn un o nodweddion allweddol ein dull i atgyfnerthu capasiti addysgu cyfrwng Cymraeg a chefnogi ymarferwyr i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y caiff ymarferwyr eu nodi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r broses o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwwm. Bydd y dull hwn yn cael ei wella drwy weithio gyda Dysgu, sef y corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol newydd.

Mae'r cyllid a ddyrannwyd i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu mynediad i wersi Cymraeg am ddim i bob ymarferydd addysg. Mae'r Ganolfan bellach yn ymgymryd â rôl gydgysylltiedig o ran cynllunio cyfleoedd dysgu

proffesiynol yn y Gymraeg i'w darparu i'r gweithlu addysg. Yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu llawn, gan weithio gyda'r holl awdurdodau lleol i ddeall anghenion ar lefel leol, mae'r Ganolfan bellach wedi datblygu cynllun ar gyfer modelau cyflawni newydd, gan gynnwys cymorth mewn ysgolion, cyrsiau preswyl, cyrsiau ar-lein dan arweiniad tiwtor ac adnoddau dysgu proffesiynol. Caiff £1.1m ei ddyrannu o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2026-27 i gefnogi'r gwaith hwn.

Bydd y Ganolfan yn rheoli'r cyrsiau dwys sydd ar gael, ar amrywiaeth o lefelau ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac athrawon, drwy'r Cynllun Sabothol ochr yn ochr â'r cyrsiau eraill sy'n cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu addysg. Caiff tua £3.8m ei ddyrannu o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2026-27 i'r Cynllun Sabothol. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion i wneud y cyrsiau, gyda thua £1.3m yn ariannu'r Ganolfan i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ym maes methodoleg ddwys addysgu'r Gymraeg ac ieithoedd.

Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddyrannu £0.150m o'i grant (BEL y Gymraeg) yn 2026-27 i ddatblygu dau brosiect penodol i barhau i:

- ddarparu'r prosiect Dysgu'r Dyfodol i ddarparu mentora i ddysgwyr israddedig i'w cefnogi i baratoi ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- datblygu'r rhwydwaith Cadw Cyswllt i ymgysylltu â graddedigion Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.

Caiff £5.9m pellach ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o elfen *Cymraeg 2050* y Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ac uchelgeisiau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys £1.4m ar gyfer dysgu proffesiynol a £4.5m ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg, a ailsefydlwyd yn 2023-24 yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol. Gyda 30% o arian cyfatebol gan awdurdodau lleol, cyfanswm gwerth y Grant Cymraeg mewn Addysg yw £5.85m.

O ystyried gofynion Deddf 2025, a'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd. Byddwn hefyd yn gweithio i baratoi Fframwaith Cenedlaethol sy'n nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru i wella gallu yn y Gymraeg.

**II. Sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("y Ganolfan") yn ymgymryd â rhai o'r swyddogaethau a fydd yn cael eu cyflawni gan yr Athrofa o fis Awst 2027 ymlaen. Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu drwy grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru (BEL y Gymraeg), ac fe'i sefydlwyd yn dilyn proses grant gystadleuol yn 2016 fel cwmni cyfyngedig o dan warant; ac yn eiddo llwyr i

Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Bydd y trefniant grant presennol ar gyfer y Ganolfan yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2027.

Mae gwaith ar y gweill i sefydlu'r Athrofa erbyn 1 Awst 2027 yn unol â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, gyda'r costau wedi'u hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gafodd ei gyhoeddi pan gyflwynwyd y ddeddfwriaeth. Bydd elfen o'r cynnydd chwyddiannol i BEL y Gymraeg yn cael ei defnyddio i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r Athrofa.

## 3. Meysydd Penodol

**Dadansoddiad o ddyraniadau grant o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb o ran y Gymraeg ar gyfer 2026-27, ar gyfer pob sefydliad sy'n cael cyllid grant i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg.**

Rhoddodd yr adolygiad o'r cynllun grantiau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gipolwg ar y prosesau grantiau sydd ar waith eisoes gan Is-adran Cymraeg 2050. Mae'r gwaith o ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn parhau. Tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen am dymor cyllido hwy. Ar hyn o bryd, mae grantiau'n cael eu dyrannu'n flynyddol, ac mae gwaith wedi'i wneud yn 2025-26 i ystyried ymestyn dyraniadau grant am hyd at dair blynedd.

O ganlyniad i'r cynnydd y llynedd i gyllideb y Gymraeg, dyrannwyd isafswm codiad grant o 5% yn 2025-26. Yn ogystal, cafodd rhai sefydliadau gymorth ychwanegol i helpu i gynyddu eu heffaith ar amcanion *Cymraeg 2050*. Er enghraifft, darparwyd isafswm dyraniad grant o £0.1m i'r mentrau iaith i sicrhau bod ganddynt y strwythurau staffio angenrheidiol i gefnogi'r defnydd o'r iaith ar lefel gymunedol. Ar gyfer 2026-27, caiff y cynnydd chwyddiannol o 2% i linell wariant (BEL) y Gymraeg ei ddefnyddio i atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni amcanion *Cymraeg 2050* .

**Dadansoddiad o wariant ar y cynllun Iaith Athrawon Yfory ers ei sefydlu, ac o'r niferoedd sy'n manteisio arno, yn ogystal â chynlluniau eraill i gymell pobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu cyfrwng Cymraeg.**

Mae'r cynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn darparu grant o £5,000 i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglen gymwys o addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser (nid yw myfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) cyflogedig yn gymwys ar gyfer y cynlluniau cymhelliant). Gwneir y cymelldaliadau o £5,000 mewn dau randaliad:

- £2,500 ar ôl cwblhau TAR cymwys yn llwyddiannus a chael Statws Athro Cymwysedig (SAC).
- £2,500 ar ôl cwblhau cyfnod cynefino llwyddiannus yng Nghymru (mewn ysgol uwchradd Gymraeg neu mewn unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir os yw'n addysgu Cymraeg fel pwnc).

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r hawlwyr a'r gwariant hyd yn hyn (yn gywir ar 11 Medi 2025).

*Tabl 2: Gwariant cynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory*

| Blwyddyn Academaidd | Hawlwyr rhandaliadau Taliad SAC | Hawlwyr rhandaliadau'r Taliad Cynefino | Gwariant hyd yn hyn |
|---|---|---|---|
| **BA2018/19** | 60 | 45 | £140,000 |
| **BA2019/20** | 95 | 80* | £435,000* |
| **BA2020/21** | 130 | 110* | £597,500* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| BA2021/22 | 105 | 85* | £470,000* |
| BA2022/23 | 75 | 60* | £342,500* |
| BA2023/24 | 85 | 40* | £307,500* |
| BA2024/25 | 80 | Amh | £195,000* |
| Cyfanswm yr Hawlwyr | 630 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn | £2,487,500 |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth am reoli grantiau Llywodraeth Cymru*
*Nodiadau'r tabl:*

- *Mae nifer yr hawlwyr wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf.*
- *Dim ond hawlwyr a gafodd randaliad Taliad SAC sy'n gymwys i gael rhandaliad Taliad Cynefino Yn ogystal, i fod yn gymwys i dderbyn rhandaliad Taliad Cynefino, rhaid i'r athro fod wedi cwblhau ei gyfnod cynefino statudol yn gweithio mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu wrth addysgu Cymraeg fel pwnc mewn lleoliad cyfrwng Saesneg.*
- ** yn dynodi bod y ffigur hwn yn destun newid gan nad yw'r dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais am y taliad cynefino wedi mynd heibio eto (cywir ar 11 Medi 2025)*
- *Mae rhandaliad Taliad SAC yn dynodi'r rhai sy'n gymwys i hawlio'r taliad cyntaf ac nid y rhai sydd wedi'u cofrestru ar y cynllun*

Mae'r cynllun cymhelliant Pynciau â Blaenoriaeth yn darparu grant o £15,000 i fyfyrwyr sy'n astudio ar raglen Addysg Gychwynnol Athrawon ôl-raddedig mewn pynciau penodol (pynciau â blaenoriaeth). Mae'r pynciau â blaenoriaeth yn cynnwys Cymraeg fel pwnc. Mae'r cynllun ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan- amser. Mae'r cymelldaliadau gwerth cyfanswm o £15,000 yn cael eu gwneud mewn tri rhandaliad ar gyfer myfyrwyr amser llawn, neu bedwar rhandaliad ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n cael eu talu.

Gall unigolion cymwys fanteisio ar bob un o gynlluniau cymhelliant Llywodraeth Cymru. Yn y flwyddyn academaidd hon (2025/26) a'r flwyddyn academaidd nesaf 2026/27, mae cyfanswm o £25,000 ar gael i'r rhai sy'n bodloni gofynion y tri chynllun hyn:

- Y Cynllun Cymhelliant Pynciau â Blaenoriaeth (£15,000)
- Y Cynllun Iaith Athrawon Yfory (£5,000)
- Y Cynllun Cymhelliant i Rai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol (£5,000)

Mae gwerthusiad o gymelliannau fel offeryn recriwtio yn cael ei gynnal o dan y Gwerthusiad o Raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, y disgwylir iddo gyflwyno adroddiad yng Ngwanwyn 2026.. Rydym yn cynnal ymarfer cysylltu data hefyd gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ganfod cyfraddau cadw unigolion a gafodd gymhelliant pwnc â blaenoriaeth. Rydym wedi cael y set ddata ac yn cwblhau'r gwaith cysylltu data, a disgwylir gallu cyhoeddi adroddiad ar y canfyddiadau yr hydref hwn. Os bydd yr ymarfer hwn yn llwyddiannus, byddwn yn ymchwilio i'w gynnal yn flynyddol a'i ehangu i gynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory.

*Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau grant i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, ac asesiad o wariant, effaith a gwerth grantiau penodol megis Perthyn ar gyfer mentrau sy'n cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.*

**Darparu manylion am gymorth refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac am unrhyw gyllid a ddyrannwyd i weithredu ei argymhellion Cyfnod 1.**

Ar gyfer 2025-26, mae cyllideb o £0.560m wedi'i chlustnodi ar gyfer cyflawni Perthyn. Mae Cwmpas wedi bod yn gyfrifol am ddarparu Perthyn ers 2022. Rydym wedi clustnodi cyllid i Cwmpas i gyflawni dwy elfen Perthyn:

- £0.157m ar gyfer gwasanaeth cyngor a chymorth pwrpasol i rymuso cymunedau i ddatblygu atebion i'r heriau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol y maent yn eu hwynebu. Gwneir hyn drwy ddarparu gwasanaeth cynghori cyfnod cynnar i gymunedau i ddatblygu a throi syniadau a phrosiectau yn fentrau cymdeithasol newydd a phrosiectau tai a arweinir gan y gymuned.
- £0.4m ar gyfer y cynllun grant Perthyn i ddarparu cymorth ariannol cynnar hanfodol i gefnogi cymunedau i droi syniadau'n brosiectau hyfyw. Ym mis Hydref 2025, gwnaethom ymestyn y cynllun grant Perthyn i'w wneud yn gynllun Cymru gyfan i alluogi pob cymuned i ddatblygu mentrau cymdeithasol newydd a phrosiectau tai a arweinir gan y gymuned – lle mae'r Gymraeg yn ganolog i'w nodau a'u hamcanion. Cyfanswm y dyraniadau grant sydd ar gael i bob grŵp yw £10,000 a hyd yn hyn, mae cyfanswm o 67 o grantiau bach wedi'u dyfarnu i gefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned, cwmnïau cydweithredol a/neu brosiectau tai a arweinir gan y gymuned. Bydd y cynllun grant Perthyn yn parhau i flaenoriaethu cymorth i brosiectau mewn cymunedau Cymraeg sydd â nifer uchel o ail gartrefi.

Mae £0.210m pellach ar gael i gefnogi prosiectau eraill o fewn y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, gan gynnwys ymchwil, gwerthusiad annibynnol o'r cynllun, y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, y Llysgenhadon Diwylliannol a'r 'Cynllun Cyfle Teg'. Yn 2026-27, byddwn yn parhau i werthuso'r Cynllun a byddwn yn darparu refeniw i gefnogi gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a gweithredu ei argymhellion.

**Diweddariad ar wariant refeniw ar gynllun Arfor 2 yn ystod 2025-26 ac unrhyw wariant arfaethedig ar gyfer 2026-27.**

Dyrannwyd cyllid o £11m i raglen ARFOR 2 dros y ddwy flynedd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 (£4m yn 2023-24 a £7m yn 2024-25) i gefnogi nifer bach o ymyriadau strategol, gyda'r nod o gefnogi'r economi a'r Gymraeg mewn pedair o ardaloedd awdurdodau lleol, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhaglen, a ddyrannwyd fel grant i Gyngor Gwynedd ar ran y pedwar awdurdod lleol, wedi cael ei chyflawni drwy nifer o wasanaethau o dan gontract, yn ogystal â rhai elfennau o gyflawni'n uniongyrchol drwy'r awdurdodau lleol eu hunain.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, mae £0.5m wedi'i ddarparu i Gyngor Gwynedd ar ran y pedair ardal awdurdod lleol i barhau ag agweddau ar raglen ARFOR, gan gynnwys ariannu cydgysylltydd y rhaglen, agweddau ar y rhaglen sy'n ymwneud â phobl ifanc (Llwyddo'n Lleol) ac i ddarparu cyfnod i bwyso a mesur y gwersi a ddysgwyd o raglenni ARFOR 1 a 2, y gwerthusiad annibynnol ac i ystyried

dysgu, arferion gorau a chyfleoedd ar gyfer prif ffrydio. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer ARFOR y tu hwnt i'r amserlen hon. Er hynny, bydd y gwaith uchod yn allweddol, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill, i lywio'r ffyrdd mwyaf effeithiol o brif ffrydio a'r ffordd ehangach ymlaen.

## 4. Comisiynydd y Gymraeg

**Dyraniadau a sylwadau mewn perthynas â'r dyraniad cyllidebol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2026-27, gan gynnwys unrhyw gyllid refeniw neu gyfalaf ychwanegol a ddarperir.**

Yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran y gyllideb ddrafft hon, ac i sicrhau dull trawslywodraethol o gyllido ein Comisiynwyr, mae'r gyllideb refeniw ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg wedi'i chynyddu 2% (£0.073m) yn 2026-27 i roi cymorth i'r cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus. Rydym hefyd wedi ymgorffori cyllid yn y llinell sylfaen yn 2026-27 ar gyfer cyflogau'r sector cyhoeddus a chynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn 2025- 26, sy'n dod i gyfanswm o £0.057m. Mae hyn yn darparu cyfanswm cyllideb refeniw o £3.475m i'r Comisiynydd ar gyfer 2026-27.

Ni fu unrhyw newidiadau i gyllidebau heb fod yn arian parod na chyllidebau cyfalaf y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, sy'n dal yn £0.138m a £0.050m yn y drefn honno ar gyfer 2026-27

**Sylwebaeth ar sut mae amcangyfrif o gyllideb y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb ddrafft.**

Mae gofyniad statudol ar Gomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno Amcangyfrif Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn 31 Hydref. Cyflwynodd y Comisiynydd Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2026-27 i Weinidogion Cymru ar 1 Hydref.

Mae Amcangyfrif y Comisiynydd yn cynnwys gofyniad o £3.558m o gyllid refeniw. Mae'r cais hwn yn cynnwys £0.060m yn ychwanegol ar gyfer dyfarniad cyflog 2026- 27, yn seiliedig ar ragdybiaeth o gytundeb cyflog o 2.2%. Mae hyn yn cymharu â chyllid refeniw ychwanegol o £0.073m sydd wedi'i ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2026-27.

Mae'r Comisiynydd wedi gofyn hefyd am £0.066m yn ychwanegol i ganiatáu iddi gynyddu'r gwaith a wneir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, a £0.030m ar gyfer rhaglenni. Nid oes cyllid ychwanegol penodol at y dibenion hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27. Er hynny, rwyf yn fodlon bod cyllideb ddigonol wedi'i dyrannu i'r Comisiynydd i'w galluogi i gyflawni ei dyletswyddau statudol, ac y gall flaenoriaethu gweithgareddau o fewn y gyllideb.

Mae Amcangyfrif y Comisiynydd hefyd yn cynnwys cais am gyllid cyfalaf o £0.050m, a £0.132m nad yw'n arian parod (dibrisiant). Mae cyllideb ddrafft 2026-27 yn dyrannu £0.050m o gyllid cyfalaf i'r Comisiynydd a £0.138m nad yw'n arian parod (dibrisiant).

## 5. Gwariant Cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

*Cynnydd ar ehangu capasiti ac agor ysgolion Cymraeg newydd, dosbarthiad Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.*

Caiff y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ei ariannu o'r BEL Seilwaith Addysg yn y MEG Addysg. Ei fwriad yw cynyddu capasiti mewn ysgolion Cymraeg, sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, cefnogi darpariaeth trochi hwyr yn ogystal â chefnogi dysgwyr o bob oed i wella eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Sefydlwyd y grant yn 2018 i gefnogi gweithredu *Cymraeg 2050* a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae dros £128m o gyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

Ceir ymrwymiadau yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i agor 23 o ysgolion Cymraeg newydd ac ehangu 25 sy'n bodoli eisoes. Ers 2022, mae buddsoddiad Band B a'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi 56 o brosiectau i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ledled Cymru, gan gynnwys:

- 17 o ysgolion newydd wedi'u hagor neu wedi'u hail-leoli i gynyddu eu capasiti i dderbyn rhagor o ddysgwyr;
- 39 o brosiectau i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg wedi'u cwblhau, sydd hefyd yn cynnwys rhai prosiectau gofal plant, prosiectau anghenion dysgu ychwanegol a chanolfannau iaith.

Mae cam nesaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'i ddylunio i gyd- fynd â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Bu cydweithio gofalus â swyddogion y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer y rhaglen dreigl 9 mlynedd yn adlewyrchu gofynion a thargedau'r Cynlluniau Strategol 10 mlynedd. Gan adeiladu ar gyflawni'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus ers 2018, cyhoeddwyd comisiwn ar 9 Medi 2025 i fesur diddordeb yr awdurdodau lleol mewn dyraniad cyllideb o £15m y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhagor o brosiectau Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o dair blynedd (rhwng 2026-27 a 2028-29). Bydd y grant hwn yn amodol ar gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg o fewn y cyfyngiadau cyllidebol presennol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb yw 12 Rhagfyr 2025.

*Manylion unrhyw wariant cyfalaf arall i gefnogi a hybu'r Gymraeg.*

Gweler adran 4 ar Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried ffyrdd o gefnogi'r Gymraeg wrth ddyfarnu cyllid cyfalaf. Mae'r dull hwn yn gymwys ar draws y llywodraeth a'r holl ffrydiau cyllido cyfalaf perthnasol, gan sicrhau bod ceisiadau'n cael eu hasesu nid yn unig yn erbyn meini prawf technegol ac ariannol, ond hefyd am eu potensial i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r ystyriaeth hon yn rhan o'r broses asesu ar gyfer llawer o gynlluniau grant cyfalaf.

## 6. Crynodeb

Cyflwynir dyraniad cyllideb ddrafft 2026-27 fel y mae'n berthnasol i'r Gymraeg i'r Pwyllgor i'w ystyried.

**Mark Drakeford AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg**

## 7. Atodiad

### Atodiad A – Cyllidebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ôl Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2024-25 (alldro), 2025-26 (rhagolwg alldro) a 2026-27

Adnoddau

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2024-25 | Cyllideb Derfynol 2025-26 (Chwef. 2025) | Cyllideb Atodol 1af 2025-26 (Meh. 2025) | Rhagolwg Alldro (Cyfnod 5) | Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau i/o MEGs eraill | Trosglwyddiadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwan-egol ers y Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Cyllideb Ddrafft Hydref 2025 |
| | | £000 | | | | | | | | | | |
| MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | | | | | | | |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 34,614 | 38,461 | 38,475 | 38,475 | 38,461 | 21 | 38,482 | 80 | 0 | 772 | 39,334 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,240 | 3,345 | 3,382 | 3,382 | 3,345 | 57 | 3,402 | 0 | 0 | 73 | 3,475 |
| | Comisiynydd y Gymraeg – Heb fod yn Arian Parod | 125 | 138 | 138 | 138 | 138 | 0 | 138 | 0 | 0 | 0 | 138 |
| Cyfanswm BEL y Gymraeg (MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) | | 37,979 | 41,944 | 41,995 | 41,995 | 41,944 | 78 | 42,022 | 80 | 0 | 845 | 42,947 |
| MEG Addysg | | | | | | | | | | | | |
| Cymorth Addysg Cyn-16 i ALlau | Cymraeg 2050 (grant addysg i ALlau) | 9,882 | 8,773 | 8,773 | 9,475 | 8,773 | 0 | 8,773 | 0 | 0 | 700 | 9,473 |
| Cyfanswm y BEL Cymorth Addysg Cyn-16 i ALlau (MEG Addysg) | | 9,882 | 8,773 | 8,773 | 9,475 | 8,773 | 0 | 8,773 | 0 | 0 | 700 | 9,473 |
| Y Gymraeg mewn Addysg | Y Gymraeg mewn Addysg | 7,247 | 6,417 | 3,991 | 3,991 | 6,417 | 0 | 6,417 | 0 | -2,426 | 0 | 3,991 |
| | Y Gymraeg mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm BEL y Gymraeg mewn Addysg (MEG Addysg) | 7,251 | 6,417 | 3,991 | 3,991 | 6,417 | 0 | 6,417 | 0 | -2,426 | 0 | 3,991 |
| CYFANSWM Y CYLLIDEBAU SY'N YMWNEUD Â'R GYMRAEG | 55,112 | 57,134 | 54,759 | 55,461 | 57,134 | 78 | 57,212 | 80 | -2,426 | 1,545 | 56,411 |

## Cyfalaf

| | | 2024 - 25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2024-25 | Cyllideb Derfynol 2025-26 (Chwef. 2025) | Cyllideb Atodol 1af 2025-26 (Meh. 2025) | Rhag-olwg Alldro (Cyfnod 5) | Cyllideb Derfynol 2025-26 (Chwef. 2025) | Newid-iadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwyg-iedig | Trosglwydd-iadau i/o MEGs eraill | Trosglwydd-iadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwan-egol ers y Llinell Sylfaen Ddiwyg-iedig | Cyllideb Ddrafft Hydref 2025 |
| | | £000 | | | | | | | | | | |
| MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | | | | | | | |
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfanswm BEL Comisiynydd y Gymraeg (MEG Gwas. Canolog a Gweinyddu) | | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 50 |
| MEG Addysg | | | | | | | | | | | | |
| Y Gymraeg mewn Addysg | Y Gymraeg mewn Addysg | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y BEL Cymraeg mewn Addysg (MEG Addysg) | | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM Y CYLLIDEBAU SY'N YMWNEUD Â'R GYMRAEG | | 55 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 50 |